

**Cyngor defnyddiol
yn ystod toriad yn
y cyflenwad**



Beth i'w wneud yn ystod toriad annisgwyl yn eich cyflenwad

I ddechrau, gwiriwch:

- A yw eich cymdigion wedi colli eu cyflenwad?
- A yw goleuadau'r stryd wedi diffodd?

Os nad ydynt, efallai mai eich gosodiad trydanol sy'n achosi'r broblem.

- Gwiriwch eich switsh tripio, os oes gennych un.
- Os ydyw wedi tripio, diffoddwch eich holl offer trydanol ac ailosod y switsh.

Beth sy'n digwydd pan fyddaf yn ffonio?

Pan fyddwch yn ffonio, efallai y byddwn angen ychydig o wybodaeth gennych megis eich enw, cod post a rhif y t. Os ydym yn ymwybodol o doriad yn y cyflenwad a bod gennym ddigon o wybodaeth i ddelio â'r sefyllfa, efallai y byddwch yn cael eich cysylltu i'n system negeseuon llafar. Bydd y neges a recordiwyd wedi'u thargedu at ardal ddaearyddol benodol a bydd yn rhoi gwybodaeth am y toriad yn cynnwys pryd y disgwylir y bydd yn cael ei adfer, pan fo hynny'n bosibl.



Diogelwch – gwifrau trydan wedi disgyn

Os byddwch yn gweld ceblau trydan ar y ddaear neu'n agos i'r ddaear, peidiwch â mynd yn agos atynt. Efallai eu bod yn fyw ac yn gallu dargludo trydan drwy ddaear laith neu wrthrychau metel.

O ydynt mewn man cyhoeddus, ffoniwch 999, hysbyswch yr heddlu a helpwch i gadw pobl yn ddigon pell oddi wrth y ceblau nes bod yr heddlu yn cyrraedd.

Ffoniwch ni ar frys os byddwch yn gweld unrhyw un o'r canlynol, a byddwn yn diogelu'r offer:

- Offer neu linellau wedi'u difrodi.
- Llinellau uwch ben ar y ddaear neu'n ddigon isel i bobl neu gerbydau allu eu cyffwrdd.
- Gwifrau uwch ben yn gwreichioni neu wedi eu gwasgu at ei gilydd gan frigau wedi'u malu.
- Ffensys is-orsafoedd wedi'u malu neu orchuddion tyllau archwilio trydan wedi'u difrodi sy'n golygu bod offer byw yn weladwy.
- Mesuryddion trydan ac offer cysylltiedig nad ydynt yn ddiogel neu'n wrth-ddŵr.

Angen mwy o gymorth?

Os yw trydan yn hanfodol ar gyfer eich iechyd (er enghraifft, os ydych yn defnyddio offer meddygol yn eich cartref) gofynnwch i gael eich cynnwys ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaethol. Gallwch wneud hyn ar ein gwefan, dros y ffôn neu drwy e-bost:

-  www.spenergynetworks.co.uk/priorityservices
-  0330 10 10 444
-  customercare@spenergynetworks.com

Offer meddygol

Os ydych yn defnyddio offer meddygol trydanol yn eich cartref, sicrhewch fod gennych gynlluniau ar gyfer toriadau hir yn y cyflenwad. Sicrhewch fod gan eich offer fatri wrth gefn.

Os oes gennych lifft grisiau trydan, gwiriwch a oes yna handlen rhyddhau â llaw y gellir ei defnyddio i ddychwelyd y lifft grisiau yn ddiogel i'r gwaelod. Mae gan nifer o lifftiau grisiau fatri wrth gefn. Os nad oes gan eich lifft chi fatri wrth gefn, efallai y bydd hi'n bosibl cael un wedi'i osod.

Yn achos problemau iechyd difrifol, ffoniwch GIG 24 ar 111. Mewn argyfwng ffoniwch 999

Bod yn barod

- Cadwch y rhif ffôn argyfwng wrth law - wrth ymyl y ffôn neu wedi'i storio yn eich ffôn symudol. Rydym yma i chi 24 awr y dydd.
- Os byddwch angen ychydig o help ychwanegol, cysylltwch â ni ynglŷn ag ymuno â'r Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaethol.
- Cadwch dortsh â batris wedi'u gwefru ynddi mewn man cyfleus.
- Cofiwch, efallai na fydd nifer o ffonau tŷ modern yn gweithio, felly cadwch ffôn symudol neu ffôn traddodiadol (analog) wrth law.
- Cadwch radio batri, oherwydd efallai y byddwch yn gallu derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y digwyddiad.
- Sicrhewch eich bod yn gwybod sut i weithredu drysau garej a giatiau trydanol â llaw.

- Ceisiwch ofalu bod tanc tanwydd eich cerbyd yn hanner llawn o leiaf - efallai na fydd garejys petrol yn gallu pwmpio tanwydd.
 - Generaduron - os oes genych eneradur, sicrhewch ei fod wedi'i osod yn ddiogel. Os nad ydyw, mae perygl i chi ddifrodi eich eiddo neu beryglu bywydau.
 - Ceisiwch sicrhau bod eich ffonau symudol a gliniaduron wedi'u gwefru'n llawn.
-

Cyngor defnyddiol yn ystod toriad yn y cyflenwad

- Datgysylltwch blygiau offer sensitif, megis teledyddion, offer lloeren a chyfrifiaduron.
- Diffoddwch a datgysylltwch blygiau offer trydanol, yn arbennig eitemau megis tannau, poptai, haearnau smwddio a sythwyr gwallt rhag ofn i chi anghofio eu bod ymlaen pan fo'r cyflenwad yn cael ei adfer.
- Gadewch olau ymlaen fel eich bod yn gwybod pan fo'r cyflenwad wedi'i adfer.
- Ceisiwch osgoi agor eich oergell neu rewgell fwy nag sydd raid.
- Ewch i weld cymdogion oedrannus neu fregus i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn gyfforddus.
- Efallai y bydd goleuadau'r strydoedd hefyd wedi diffodd, felly byddwch yn ofalus y tu allan.
- Yn ystod tywydd oer, gwisgwch ddillad cynnes a defnyddio nifer o haenau o ddillad.
- Ni fydd nifer o systemau gwresogi canolog a gwresogi dŵr yn gweithio. Mae gwresogyddion symudol yn ffordd arall dda o gynhesu, ond byddwch yn ofalus ble'r ydych yn eu gosod.

- Cyfyngwch ar eich defnydd o liniadur neu ffôn clyfar er mwyn arbed y batri.
 - Pan fo'r cyflenwad wedi'i adfer, rhowch eich offer ymlaen fesul un.
-

Gofalu am eich anifeiliaid anwes

Ni fydd toriad yn y cyflenwad yn effeithio ar y rhan fwyaf o anifeiliaid anwes. I gael cyngor penodol ynglŷn ag anifeiliaid egsotig, cysylltwch â'ch siop anifeiliaid anwes leol, y cyflenwr neu'r RSPCA.

Pysgod trofannol

Os mai am gyfnod byr yn unig y bydd toriad yn y cyflenwad, ni fydd hynny'n effeithio ar y rhan fwyaf o bysgod trofannol. Gall toriadau hirach greu problemau oherwydd ni fydd pypiau trydan, hidlyddion a gwresogyddion yn gweithio tra bod y trydan wedi'i ddiffodd.

Mae cyflenwyr pysgod yn argymhell cael hidlydd swigod rhad sy'n cael ei weithio gan bwmp aer batri, a gellir defnyddio hwn yn ystod toriad yn y cyflenwad. Mae gwresogyddion batri hefyd ar gael mewn siopau anifeiliaid anwes.

Os nad yw offer batri ar gael i chi:

- Corddwch wyneb y dŵr am 5 munud bob awr drwy lenwi jwg â dŵr y tanc a'i dywallt yn ôl i mewn.
- I ynysu'r tanc, lapiwch ef mewn blancedi a/ neu llenwch boteli dŵr poeth â dŵr cynnes a'u gosod o amgylch y tu allan i'r tanc.

Da byw

Os bydd toriad yn eich cyflenwad trydan, gall hyn effeithio ar awyriad, gwres, golau a chyflenwad bwyd.

Efallai y byddwch eisiau ystyried:

- Generadur i ddarparu ffynhonnell arall o drydan.
- Cynllun wrth gefn, a digon o fwyd wedi'i stocio, ar gyfer bwydo â llaw os ydych fel arfer yn dibynnu ar fwydo awtomatig.
- Uned pŵer batri ar gyfer darparu trydan i unrhyw ffensys trydan hanfodol.

Os nad oes gennych eneradur ar gael.

- Defnyddiwch fflapiau agor awtomatig yn yr adeilad er mwyn darparu awyriad naturiol. Cynyddwch gylchrediad yr aer drwy agor fflapiau awyru a drysau led y pen.
- Mewn tywydd oer, darparwch ddeunydd ynysu ychwanegol a gwellt gwely, yn arbennig ar gyfer anifeiliaid ieuengach. Ystyriwch symud unrhyw anifeiliaid yr ydych yn teimlo sydd mewn perygl gwirioneddol i fan dros dro sydd wedi ei wresogi â nwy potel.

**TOR
TR
FFON
105**



Cysylltwch

Os nad yw eich switsh tripio wedi tripio, ac na allwch ganfod unrhyw reswm arall am y toriad yn y cyflenwad, peidiwch â chymryd yn ganiataol ein bod yn gwybod. Rhowch wybod i ni drwy gysylltu â ni ar y rhifau argyfwng isod:

Canolbarth a De Yr Alban

 **0800 092 9290 / 0330 10 10 222**

Swydd Caer, Glannau Mersi, Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig

 **0800 001 5400 / 0330 10 10 400**

Mae nodi'r rhif perthnasol yn syniad da a'i gadw yn agos at eich ffôn neu ei gadw yn eich ffôn symudol.

Gallwch hefyd gael gwybodaeth am unrhyw weithgaredd sy'n digwydd yn eich ardal drwy edrych ar dudalen gwirio cod post ein gwefan –

 **[www.spenergynetworks.co.uk/
pages/postcode_lookup.asp](http://www.spenergynetworks.co.uk/pages/postcode_lookup.asp)**

Mae'r daflen hon hefyd ar gael mewn Cymraeg. Os byddwch angen copi, ffoniwch 0330 10 10 444 neu ewch i spenergynetworks.co.uk

Ni fydd galwadau i rifau 03 yn costio mwy na galwad cyfradd genedlaethol i rif 01 neu 02 ac mae'n rhaid iddynt gael eu cynnwys fel rhan o unrhyw funudau cynwysedig yn yr un modd â galwadau 01 a 02. Mae'r rheolau hyn yn gymwys i alwadau o unrhyw fath o linell yn cynnwys symudol, BT, unrhyw linell sefydlog arall neu ffôn talu.